



CPS

**Polisi i Erlynyddion
Yn ymwneud ag Achosion o
Annog neu Gynorthwyo Hunan Laddiad**

**Cyhoeddwyd gan
Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**

Chwefror 2010 (Diweddarwyd 2014)

POLISI AR GYFER ERLYNYDDION YN YMWNEUD AG ACHOSION O ANNOG NEU GYNORTHWYO HUNAN LADDIAD

CYFLWYNIAD

- 1 Mae person yn cyflawni trosedd o dan adran 2 o Ddeddf Hunan Laddiad 1961 os yw ef neu hi'n cyflawni gweithred allai annog neu gynorthwyo hunan laddiad neu ymgais person arall i'w ladd ei hun, a bod y weithred honno wedi ei bwriadu i annog neu gynorthwyo hunan laddiad neu ymgais i gyflawni hunan laddiad. Cyfeirir at y drosedd hon yn y polisi hwn fel "annog neu gynorthwyo hunan laddiad". Mae'n rhaid cael caniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus cyn y gellir erlyn unigolyn.
- 2 Mae'r drosedd o annog neu gynorthwyo hunan laddiad yn golygu uchafswm cosb o garchar am 14 mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd.
- 3 Nid yw cyflawni neu geisio cyflawni hunan laddiad, ynndo'i hun, fodd bynnag, yn drosedd.
- 4 Cyhoeddir y polisi hwn o ganlyniad i i benderfyniad Pwyllgor Appellate o Dŷ'r Arglwyddi mewn R (ar gais Purdy) v Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a adroddwyd ar [2009] UKHL45, oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus "i wneud ei safbwynt yn glir ynglŷn â'r ffactorau y tybia ef sy'n berthnasol i gynnal neu i rwystro erlyniad" (paragraff 55) mewn achosion o annog a chynorthwyo hunan laddiad.
- 5 Ni fu i achos Purdy newid y gyfraith: dim ond y Senedd all newid y gyfraith ar annog neu gynorthwyo hunan laddiad.
- 6 Nid yw'r polisi hwn yn "dad-droseddu" y drosedd o annog neu gynorthwyo hunan laddiad. Ni ellir cymryd unrhyw beth yn y polisi hwn i olygu sierwydd y bydd gan berson imiwnedd rhag cael ei erlyn os bydd ef neu hi'n cyflawni gweithred sy'n annog neu'n cynorthwyo hunan laddiad neu ymgais person arall i'w ladd ei hun.
- 7 At ddibenion y polisi hwn, defnyddir y term "dioddefydd" i ddisgrifio'r sawl sy'n cyflawni neu'n ceisio cyflawni hunan laddiad. Efallai na fydd pawb yn cytuno fod hwn yn ddisgrifiad addas ond, yng nghyd-destun cyfraith droseddol, dyma'r term mwyaf addas i'w ddefnyddio.
- 8 Mae'r polisi hwn yn gymwys pan gyflawnir y weithred sy'n cyfateb i anogaeth neu gymorth yng Nghymru neu yn Lloegr; unrhyw hunan laddiad neu ymgais i gyflawni hunan laddiad o ganlyniad i'r anogaeth neu'r cymorth allai ddigwydd mewn unrhyw ran o'r byd, gan gynnwys yng Nghymru neu yn Lloegr.

YR YMCHWILIAD

- 9 Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio i bob achos o annog neu gynorthwyo hunan laddiad. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn bwriadu darparu canllawiau i bob Awdurdod Heddlu ynglŷn ag ymdrin ag achosion o annog neu gynorthwyo hunan laddiad yn fuan ar ôl cyhoeddi'r polisi hwn.
- 10 Bydd canllawiau'r ACPO yn argymhell yn benodol fod swyddogion yr heddlu'n cysylltu gyda'r erlynydd sy'n adolygu er mwyn ceisio ei gyngor / chynghor yn fuan a thrwy gydol eu hymholiadau fel y bydd pob trywydd ymchwilio, yng nghyd-destun yr achos unigol, wedi eu trafod a chytuno arnynt gan y Tîm Erlyn. Bwriad hyn yw sicrhau fod yr holl dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol ar gael fel y bydd yn sail i'r penderfyniad ynglŷn â pha erlyniad sydd i ddigwydd.
- 11 Mae'n rhaid i'r erlynydd sy'n adolygu wneud yn siŵr fod ganddo / ganddi dystiolaeth a gwybodaeth ddigonol er mwyn bod yn sail i benderfyniad ynglŷn â champau tystiolaethol a lles y cyhoedd yn y Prawf Cod Llawn (gweler paragraff 13 isod). Bydd yr erlynydd sy'n adolygu angen gwybodaeth fanwl ynglŷn â galluedd meddyliol y sawl sydd wedi cyflawni neu wedi ceisio cyflawni hunan laddiad ac ynglŷn ag unrhyw ffactor perthnasol o ran lles y cyhoedd.
- 12 Ni ddylai'r erlynydd sy'n adolygu ddod i benderfyniad nes y bydd ganddo ef neu hi'r holl ddeunydd perthnasol y mae'n rhesymol i gael gafael arno ar ôl ymchwiliad llawn a thrylwyr. Dylai'r erlynydd sy'n adolygu ddweud wrth yr heddlu os oes angen unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth bellach cyn y gellir dod i benderfyniad.

Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU

- 13 Mae'n rhaid i erlynyddion roi'r Prawf Cod Llawn ar waith fel y nodir yn y Cod ar Gyfer Erlynyddion y Goron mewn achosion o annog neu gynorthwyo hunan laddiad. Mae gan y Prawf Cod Llawn ddau gyfnod: (i) y cyfnod tystiolaethol; a (ii) chyfnod lles y cyhoedd. Mae'n rhaid ystyried y cyfnod tystiolaethol cyn cyfnod lles y cyhoedd. Ni ddylai achos sy'n methu â phasio'r cyfnod tystiolaethol fynd yn ei flaen, waeth pa mor ddifrifol neu sensitif y gall fod. Lle mae tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau erlyniad, mae'n rhaid i erlynyddion fynd ymlaen i ystyried a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd.
- 14 Ni fydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn cydsynio i erlyn am drosedd o annog neu gynorthwyo hunan laddiad oni bai fod y Prawf Cod Llawn wedi ei fodloni.

Y CYFNOD TYSTIOLAETHOL

- 15 Newidiwyd Adran 2 o Ddeddf Hunan Laddiad 1961 a daeth yn weithredol o 1 Chwefror 2010. Mae'n hanfodol felly fod erlynyddion yn nodi amseriad unrhyw weithredu i annog neu gynorthwyo yr honnir eu bod yn cefnogi dod â

chyhuddiad troseddol yn ymwneud â'r hunan laddiad neu ymgais y dioddefydd i'w ladd ei hun.

- 16 Os bydd y weithred o annog neu gynorthwyo wedi digwydd ar neu ar ôl 1 Chwefror 2010, mae adran 2 Deddf Hunan Laddiad 1961 fel y'i newidiwyd gan adran 59 ac Atodlen 12 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, yn gymwys.
- 17 Yn yr achosion hyn, er mwyn bodloni cyfnod tystiolaethol y Prawf Cod Llawn, mae'n rhaid i'r erlyniad brofi fod:
 - y sawl a ddrwgdybir wedi cyflawni gweithred allai annog neu gynorthwyo hunan laddiad neu ymgais person arall i'w ladd ei hun; ac
 - gweithred y sawl a ddrwgdybir wedi ei bwriadu i annog neu gynorthwyo hunan laddiad neu geisio cyflawni hunan laddiad.
- 18 Nid oes raid i'r "person arall" y cyfeirir ato yn adran 2 fod yn berson penodol ac nid oes raid i'r sawl a ddrwgdybir adnabod na hyd yn oed allu nodi pwy yw'r person arall hwnnw. Gellir cyflawni'r drosedd o annog neu gynorthwyo hunan laddiad hyd yn oed pan na fydd hunan laddiad neu ymgais i gyflawni hunan laddiad yn digwydd.
- 19 Nid yw'n bosibl bellach, dod â chyhuddiad o dan Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981 yn ymwneud ag adran 2 trosedd Deddf Hunan Laddiad 1961 yn rhinwedd paragraff 58 o Atodlen 21 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Mae'r ymgeisiau i annog neu gynorthwyo hunan laddiad bellach wedi eu cynnwys yn iaith adran 2, fel y'i newidiwyd.
- 20 Yng nghyd-destun gwefannau sy'n hyrwyddo hunan laddiad, gall y sawl a ddrwgdybir gyflawni'r drosedd o annog neu gynorthwyo hunan laddiad os yw ef neu hi'n bwriadu i un neu fwy o'i ddarllenwyr / darllenwyr gyflawni neu geisio cyflawni hunan laddiad.
- 21 Mae Adran 59(4) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn ychwanegu adran 2A at Ddeddf Hunan Laddiad 1961.
- 22 Mae adran 2A yn darparu y bydd y sawl sy'n trefnu i rywun arall gyflawni gweithred allai annog neu gynorthwyo hunan laddiad neu ymgais person arall i'w ladd ei hun, hefyd yn atebol ynghyd â'r ail berson hwnnw am yr anogaeth neu gynorthwyo.
- 23 Mae adran 2A hefyd yn gwneud yn glir y gall person annog neu gynorthwyo person arall, hyd yn oed pan fydd hi'n amhosibl i'r union weithred a gyflawnwyd gan y sawl a ddrwgdybir o ddarparu anogaeth neu gymorth - er enghraifft, pan fo'r sawl a ddrwgdybir yn cyflenwi'r dioddefydd gyda chyffur angheuol y profir ei fod yn ddiniwed.
- 24 Yn olaf, mae adran 2A hefyd yn gwneud yn glir fod rhywun sy'n cael ei ddrwgdybio o fygwth neu roi pwysau ar y dioddefydd yn dod o fewn rhychwant y drosedd o dan adran 2.

- 25 Mae newidiadau i adran 2 Deddf Hunan Laddiad 1961 wedi eu bwriadu er mwyn diweddarau iaith yr adran a'i gwneud hi'n glir fod adran 2 yn gymwys ar gyfer gweithred a gyflawnwyd drwy gyfrwng gwefan yn yr un ffordd yn union ag y mae gydag unrhyw weithred arall.
- 26 Dylai erlynyddion droi at Gylchlythyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2010/03 sy'n darparu manylion pellach ynglŷn â'r newidiadau a wnaed i adran 2 y Ddeddf Hunan Laddiad.
- 27 Pan mae'r weithred dan sylw wedi digwydd ar neu cyn 31 Ionawr 2010, mae'r drosedd flaenorol o gynorthwyo, annog, cynghori neu achosi hunan laddiad rhywun arall, neu ymgais rhywun arall i gyflawni hunan laddiad, yn groes i adran 2 Deddf Hunan Laddiad 1961 bryd hynny, yn gymwys.
- 28 Yn yr achosion hyn, er mwyn bodloni'r cyfnod tystiolaethol, mae'n rhaid i'r erlyniad brofi fod:
- Y dioddefydd wedi cyflawni neu wedi ceisio cyflawni hunan laddiad; a
 - Y sawl a ddrwgdybir wedi cynorthwyo, annog, cynghori neu achosi'r hunanladdiad neu'r ymgais.
- 29 Mae'n rhaid i'r erlyniad brofi hefyd fod y sawl a ddrwgdybir wedi bwriadu cynorthwyo'r dioddefydd i gyflawni hunan laddiad a bod y sawl a ddrwgdybir yn gwybod y gallai'r gweithredoedd rheiny gynorthwyo'r dioddefydd i gyflawni hunan laddiad.
- 30 Yn achos gweithred sydd wedi ei chyflawni cyn 1 Chwefror 2010, mae'n bosibl o fewn y gyfraith i geisio cynorthwyo hunan laddiad. Dylid dwyn cyhuddiad am drosedd o'r fath o dan Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981.
- 31 Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i gael ei erlyn hyd yn oed pan na fydd y dioddefydd yn bwrw ymlaen i gyflawni neu i geisio cyflawni hunan laddiad. Bydd y cwestiwn a oes tystiolaeth ddigonol o ymgais i gynorthwyo hunan laddiad yn dibynnu ar amgylchiadau ffeithiol yr achos.
- Gwahaniaethu rhwng annog neu gynorthwyo hunan laddiad a llofruddiaeth neu ddynladdiad
- 32 Mae'r weithred o hunan laddiad yn golygu fod y dioddefydd yn cymryd ei fywyd neu ei bywyd ei hun.
- 33 Llofruddiaeth neu ddynladdiad yw pan fydd rhywun yn cyflawni gweithred sy'n terfynu bywyd rhywun arall, hyd yn oed os bydd ef neu hi'n gwneud hynny ar y sail ei fod ef neu hi yn gwneud dim ond cydymffurfio â dymuniadau'r person arall sy'n rhan o'r digwyddiad.
- 34 Felly, er enghraifft, os bydd dioddefydd yn ceisio cyflawni hunan laddiad ond yn llwyddo ddim ond i'w wneud ei hun yn anymwybodol, mae person yn cyflawni llofruddiaeth neu ddynladdiad os bydd ef neu hi wedyn yn cyflawni gweithred sy'n achosi marwolaeth y dioddefydd, hyd yn oed os yw ef neu hi'n

credu nad yw ef neu hi'n gwneud dim ond cyflawni dymuniad clir y dioddefydd.

Egluro'r gyfraith

- 35 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw rhywun sy'n gwneud dim mwy na darparu gwybodaeth i rywun arall sy'n nodi neu'n egluro'r safle cyfreithiol yn ymwneud â'r drosedd o annog neu gynorthwyo hunan laddiad o dan adran 2 Deddf Hunan Laddiad 1961, yn cyflawni trosedd o dan yr adran honno.

Y CYFNOD LLES Y CYHOEDD

- 36 Ni fu'n rheol erioed y bydd erlyniad yn dilyn yn awtomatig pan fo cyfnod tystiolaethol y Prawf Cod Llawn wedi ei fodloni. Cydnabuwyd hyn gan Dŷ'r Arglwyddi yn achos Purdy pan nododd yr Arglwydd Hope: "mae wedi ei gydnabod ers talwm nad yw erlyniad yn dilyn yn awtomatig pryd bynnag y credir bod trosedd wedi ei chyflawni" (paragraff 44). Aeth yn ei flaen i gadarnhau'r agwedd a fabwysiadwyd gan Syr Hartley Shawcross, y Twrnai Gwladol yn 1951, pan nododd yn Nhŷ'r Cyffredin: "ni fu'n rheol erioed ... fod yn rhaid i droseddau cyfreithiol fod yn destun erlyniad yn awtomatig".
- 37 Yn ôl hynny, pan fo tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau erlyniad, mae'n rhaid i erlynyddion fynd yn eu blaenau i ystyried a oes angen erlyniad neu beidio er lles y cyhoedd.
- 38 Mewn achosion o annog neu gynorthwyo hunan laddiad, mae'n rhaid i erlynyddion roi ffactorau lles y cyhoedd ar waith fel y'u nodir yn y Cod i Erlynyddion y Goron a'r ffactorau a nodir yn y polisi hwn wrth lunio'u penderfyniadau. Bydd erlyniad yn digwydd fel arfer oni bai fod yr erlynydd yn siŵr fod ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu yn erbyn erlyniad yn gorbwyso'r rheiny sy'n tueddu o blaid.
- 39 Nid yw asesu lles y cyhoedd yn fater syml o gyfrif nifer y ffactorau ar bob ochr yn unig, a gweld pa ochr sydd â'r nifer mwyaf. Mae'n rhaid ystyried pob achos ar ei ffeithiau ac ar ei haeddiant ei hun. Mae'n rhaid i erlynyddion benderfynu ar bwysigrwydd pob ffactor lles y cyhoedd yn amgylchiadau pob achos a mynd ymlaen i wneud asesiad cyffredinol. Mae'n eithaf posibl y gall un ffactor ar ei ben ei hun orbwyso nifer o ffactorau eraill sy'n tueddu i'r cyfeiriad arall. Er y gall fod ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu yn erbyn erlyniad mewn achos penodol, dylai erlynyddion ystyried a ddylai erlyniad fynd rhagddo serch hynny ac y dylid rhoi'r ffactorau rheiny gerbron y llys i'w hystyried wrth roi'r ddedfryd.
- 40 Nid yw absenoldeb ffactor yn golygu o angenrheidrwydd y dylid ei gymryd fel ffactor sy'n tueddu i'r cyfeiriad croes. Er enghraifft, nid yw'r ffaith fod y dioddefydd ddim "o dan ddeunaw oed" yn trawsffurfio'r "ffactor sy'n tueddu o blaid erlyniad" yn "ffactor sy'n tueddu yn erbyn erlyniad".
- 41 Mae'n digwydd weithiau, mai'r unig ffynhonnell gwybodaeth am amgylchiadau'r hunan laddiad ac am gyflwr meddwl y dioddefydd, yw'r sawl

a ddrwgdybir. Dylai erlynyddion ac ymchwilwyr wneud yn siŵr eu bod yn dilyn pob trywydd ymholi pellach sy'n rhesymol er mwyn cael, lle bynnag bo modd, dilysiad annibynnol o adroddiad y sawl a ddrwgdybir.

- 42 Unwaith y bydd pob ymholiad rhesymol wedi ei gwblhau, os yw'r erlynydd sy'n adolygu yn amheus ynglŷn ag adroddiad y sawl a ddrwgdybir am amgylchiadau'r hunanladdiad neu am gyflwr meddwl y dioddefydd allai fod yn berthnasol i unrhyw ffactor a nodir isod, dylai ef neu hi ddod i'r casgliad nad oes digon o wybodaeth i gefnogi'r ffactor hwnnw.

Ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu o blaid erlyn

- 43 Mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyniad lle:

- 1) mae'r dioddefydd o dan 18 oed;
- 2) nid yw'r dioddefydd yn meddu ar y galluedd (fel y'i disgrifir gan Ddeddf Galluedd Meddwl 2005) i ddod i benderfyniad ar sail gwybodaeth er mwyn cyflawni hunan laddiad;
- 3) nid yw'r dioddefydd wedi dod i benderfyniad gwirfoddol, clir, bodlon ac ar sail gwybodaeth er mwyn cyflawni hunan laddiad;
- 4) nid yw'r dioddefydd wedi cyfathrebu ei benderfyniad ef neu hi i gyflawni hunan laddiad yn glir ac yn ddiamwys wrth y sawl a ddrwgdybir;
- 5) nid yw'r dioddefydd wedi ceisio anogaeth na chymorth y sawl a ddrwgdybir yn bersonol neu ar ei liwt ei hun;
- 6) ni chafodd y sawl a ddrwgdybir ei ysgogi'n llwyr gan dosturi; er enghraifft, mae'r sawl a ddrwgdybir wedi ei ysgogi gan y posibilrwydd y bydd ef neu hi neu berson â chysylltiad agos yn cael budd mewn rhyw fodd o farwolaeth y dioddefydd;
- 7) rhoddodd y sawl a ddrwgdybir bwysau ar y dioddefydd i gyflawni hunan laddiad;
- 8) ni chymerodd y sawl a ddrwgdybir gamau rhesymol i sicrhau nad oedd unrhyw berson arall wedi rhoi pwysau ar y dioddefydd i gyflawni hunan laddiad;
- 9) roedd gan y sawl a ddrwgdybir hanes o drais neu gamdriniaeth yn erbyn y dioddefydd;
- 10) roedd y dioddefydd yn gallu cyflawni'r weithred yn gorfforol oedd yn cynnwys y cymorth ei hun;
- 11) nid oedd y dioddefydd yn adnabod y sawl a ddrwgdybir, ac fe anogodd neu gynorthwyodd y dioddefydd i gyflawni neu i geisio cyflawni hunan laddiad drwy ddarparu gwybodaeth benodol drwy gyfrwng, er enghraifft, gwefan neu gyhoeddiad;

- 12) rhoddodd y sawl a ddrwgdybir anogaeth neu gymorth i fwy nag un dioddefydd nad oeddent yn adnabod y naill a'r llall;
- 13) cafodd y sawl a ddrwgdybir dâl gan y dioddefydd neu'r bobl agos at y dioddefydd am ei anogaeth neu ei gymorth ef neu hi;
- 14) roedd y sawl a ddrwgdybir yn gweithredu o fewn ei allu ef neu hi fel meddyg, nyrs, gweithiwr proffesiynol arall, gofawr proffesiynol [boed hynny am dâl neu beidio], neu fel person mewn awdurdod, megis swyddog mewn carchar, ac roedd y dioddefydd yn ei ofal ef neu hi¹;
- 15) roedd y sawl a ddrwgdybir yn ymwybodol fod y dioddefydd yn bwriadu cyflawni hunan laddiad mewn man cyhoeddus lle'r oedd hi'n rhesymol credu y byddai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol;
- 16) roedd y sawl a ddrwgdybir yn gweithredu o fewn ei allu fel rhywun yn ymwneud â rheolaeth neu fel gweithiwr (boed hynny am dâl neu beidio) mewn sefydliad neu grŵp, a'i ddiben oedd darparu amgylchedd corfforol (boed hynny am dâl neu beidio) i ganiatáu i rywun arall gyflawni hunan laddiad.
- 44 Ynglŷn â'r mater a oedd person yn mynd i elwa, (paragraff 43(6) gweler uchod), dylai'r heddlu a'r erlynydd sy'n adolygu fabwysiadu dull synnwyr cyffredin. Mae'n bosibl y gall y sawl a ddrwgdybir elwa rhywfaint - yn ariannol neu fel arall - o ganlyniad i hunan laddiad y dioddefydd yn dilyn ei weithred ef neu hi o anogaeth neu gymorth. Yr elfen hanfodol yw'r cymhelliad y tu ôl i weithred y dioddefydd. Os dangosir mai tosturi oedd yr unig beth oedd yn ysgogi ei weithredoedd / gweithredoedd, ni fydd y ffaith fod y sawl a ddrwgdybir wedi cael peth budd yn cael ei drin fel ffactor sy'n tueddu o blaid erlyniad fel arfer. Fodd bynnag, dylid ystyried pob achos ar ei haeddiant ei hun ac ar ei ffeithiau ei hun.

¹ Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae'r geiriau "ac roedd y dioddefydd yn ei ofal ef neu hi" yn gymwys a phob un o rhannau blaenorol y paragraff hwn. Nid yw'r ffactor hwn yn berthnasol am fod rhywun yn gweithredu mewn swyddogaeth a ddisgrifir ynddo. Mae'n berthnasol pan fod yn ychwanegol, perthynas gofalu rhwng y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefwr, ac mi fydd angen ystyried os fydd y sawl a ddrwgdybir wedi pwyso a dylanwadu ar y ddiodefwr.

Ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu yn erbyn erlyniad

45 Mae'n llai tebygol y bydd angen erlyniad lle:

- 1) mae'r dioddefydd wedi dod i benderfyniad gwirfoddol, clir, bodlon ac ar sail gwybodaeth i gyflawni hunan laddiad;
- 2) mae'r sawl a ddrwgdybir wedi ei ysgogi'n gyfan gwbl gan dosturi;
- 3) mae gweithredoedd y sawl a ddrwgdybir, er eu bod yn ddigonol i ddod o fewn diffiniad y drosedd, yn ddim ond anogaeth neu gymorth bychan;
- 4) mae'r sawl a ddrwgdybir wedi ceisio darbwylo'r dioddefydd i beidio â chyflawni'r gweithredoedd a arweiniodd at ei hunan laddiad ef neu hi;
- 5) gellir nodweddu gweithredoedd y sawl a ddrwgdybir fel anogaeth neu gymorth cyndyn yn wyneb dymuniad penderfynol ar ran y dioddefydd i gyflawni hunan laddiad;
- 6) adroddodd y sawl a ddrwgdybir am hunan laddiad y dioddefydd wrth yr heddlu gan eu cynorthwyo'n llawn yn eu hymholiadau i amgylchiadau'r hunan laddiad neu'r ymgais a'i ran ef neu hi mewn darparu anogaeth neu gymorth.

46 Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r ffactorau hyn fod yn ddigon agos o ran amser i'r anogaeth neu gymorth, fel y gall yr erlynydd awgrymu'n rhesymol fod y ffactorau'n weithredol ar y pryd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gychwyn y gadwyn o ddigwyddiadau penodol a arweiniodd yn uniongyrchol at yr hunan laddiad neu'r ymgais.

47 Nid yw'r rhestrau hyn o ffactorau lles y cyhoedd yn gyflawn a dylid ystyried pob achos ar ei ffeithiau ac ar ei haeddiant ei hun.

48 Os yw'r ymddygiad yn mynd y tu hwnt i annog neu gynorthwyo hunan laddiad, er enghraifft, oherwydd bod y sawl a ddrwgdybir yn mynd ati i gymryd neu i geisio cymryd bywyd y dioddefydd, mae'n bosibl y bydd angen gwerthuso'r ffactorau lles y cyhoedd sy'n tueddu o blaid neu yn erbyn erlyniad yn wahanol yng ngoleuni'r ymddygiad troseddol cyffredinol.

YMDRIN Â THREFNIADAU

49 Caiff achosion o annog neu gynorthwyo hunan laddiad eu trin gan yr Adran Troseddau Arbennig ym Mhencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae Pennaeth yr Adran honno'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

50 Dylai unrhyw erlynydd y tu allan i Adran Troseddau Arbennig y Pencadlys sy'n derbyn unrhyw ymholiad neu achos yn ymwneud â honiad o annog neu gynorthwyo hunan laddiad sicrhau y rhoddir gwybod i Bennaeth yr Adran Troseddau Arbennig.

51 Mae'r polisi hwn yn weithredol ar 25 Chwefror 2010 ac mae'n disodli'r Polisi Interim a gyhoeddwyd ar 23 Medi 2009.

Dogfen gyhoeddus yw hon.

Mae rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon a gwybodaeth am ffurfiau eraill ar gael o:

Crown Prosecution Service
Rose Court
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS

E-bost: hqpolicy@cps.gsi.gov.uk

Am wybodaeth ynglŷn â Gwasanaeth erlyn y Goron, ac er mwyn gweld neu lawr lwytho copi electronig o'r ddogfen hon, ewch i'n gwefan:

www.cps.gov.uk